OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2287 (Cy.199)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi a Sylweddau Annymunol Penodedig) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Medi 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Medi 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *11 Hydref 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 67(5), 74A, 79(9) ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**), ac o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) mewn perthynas â mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffyto-iechydol i ddiogelu iechyd y cyhoedd(**3**), polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**4**) a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer, neu a fwydir i, anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd(**5**).

Bu ymgynghori yn ystod y broses o baratoi'r Rheoliadau hyn, yn unol â gofynion adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 neu, fel y bo'n briodol, o Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**6**).

(**1**) 1970 p.40. Mae adran 66(1) yn cynnwys diffiniadau o'r ymadroddion "the Ministers", "prescribed" a "regulations". Diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), Atodlen 5, paragraff 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a throsglwyddwyd hwy drachefn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**2**) 1972 p. 68.

(**3**) O.S. 2008/1792.

(**4**) O.S. 2005/2766. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn a'r dynodiad o dan O.S. 2005/1971 i Weinidogion Cymru gan baragraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**5**) O.S. 2005/1971.

(**6**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor, yn addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468 mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad yn ôl y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

# RHAN 1

## Cyffredinol a rhagarweiniol

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi a Sylweddau Annymunol Penodedig) (Cymru) 2010, maent yn gymwys o ran Cymru ac maent yn dod i rym ar 11 Hydref 2010.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "dadansoddwr" ("*analyst*") yw dadansoddwr amaethyddol neu ddirprwy ddadansoddwr amaethyddol;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Amaethyddiaeth 1970;

ystyr "Rheoliad 152/2009" ("*Regulation 152/2009*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n pennu'r dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol ar fwyd anifeiliaid(**7**);

ystyr "y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid AE" ("*the GM Feed Regulations*") yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004(**8**); ac

ystyr "y Rheoliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid" ("*the Feed Hygiene Regulations*") yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005(**9**).

(2) Mae i unrhyw ymadrodd, a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn Rheoliad 152/2009, yr ystyr a ddygir gan yr ymadrodd cyfatebol hwnnw yn Rheoliad 152/2009.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad at adran â Rhif yn gyfeiriad at yr adran sydd â'r Rhif hwnnw yn y Ddeddf fel y'i haddesir gan y Rheoliadau hyn.

### Amnewid metrig rhagnodedig

**3.** At y dibenion o'i chymhwyso i fwydydd anifeiliaid, mae'r Ddeddf i'w darllen—

(a) yn adran 68(2)(b), fel pe rhoddid y geiriau "to sales in quantities of not more than 25 kilograms" yn lle'r geiriau "to sales of small quantities (that is to say, sales in quantities of not more than fifty six pounds or the prescribed metric substitution)"; a

(b) yn adran 76(5), fel pe rhoddid y geiriau "six kilograms" yn lle'r geiriau "fourteen pounds or the prescribed metric substitution".

# RHAN 2

## Gofynion amrywiol mewn perthynas â samplu a dadansoddi

### Dulliau o anfon sampl derfynol

**4.** Pan fo'n ofynnol anfon unrhyw sampl derfynol at unrhyw berson yn unol ag—

(**7**) OJ Rhif L54, 26.2.2009, t.1.
(**8**) O.S. 2004/3221 (Cy.277) a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/3173 (Cy.278).
(**9**) O.S. 2005/3368 (Cy.265) a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/3256 (Cy.290) ac O.S. 2009/3376 (Cy.298).

(a) paragraff 8 o Atodiad I i Reoliad 152/2009;

(b) adran 77(1) neu (2);

(c) adran 78(1)(a), (2) neu (4);

(ch) rheoliad 30(1), (2) neu (5) neu 31(2) o'r Rheoliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid; neu

(d) rheoliad 6(2)(b) neu (c) o'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid AE,

ceir ei hanfon drwy unrhyw ddull priodol neu ei danfon â llaw.

**Cymwysterau dadansoddwyr**

**5.** Y cymwysterau rhagnodedig ar gyfer dadansoddwr at ddibenion adran 67(5), i'r graddau y mae'r adran honno'n ymwneud â bwydydd anifeiliaid, a'r cymwysterau gofynnol ar gyfer person sy'n dadansoddi bwyd anifeiliaid at ddibenion y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid AE, yw'r canlynol—

(a) rhaid i'r dadansoddwr fod—

(i) yn Gemegydd Siartredig neu feddu ar Feistr mewn Dadansoddi Cemegol a ddyfarnwyd iddo gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, a

(ii) yn Gymrawd neu Aelod o'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol; a

(b) rhaid i brofiad ymarferol y dadansoddwr o archwilio bwyd anifeiliaid gael ei ardystio gan ddadansoddwr arall a benodwyd o dan adran 67(3).

**Dadansoddi ac eithrio yng nghwrs rheolaethau swyddogol**

**6.**—(1) Pan fo sampl o fwyd anifeiliaid i gael ei dadansoddi yn unol ag—

(a) adran 75(1) (sampl a ddadansoddir ar gais y prynwr); neu

(b) adran 78(1) (dadansoddi pellach gan Gemegydd y Llywodraeth) i'r graddau nad yw'r is-adran honno'n ymwneud â rheolaethau swyddogol,

rhaid defnyddio'r dull dadansoddi priodol a bennir, os oes un, yn Rheoliad 152/2009.

(2) Mewn achosion pan na phennir dull dadansoddi priodol yn Rheoliad 152/2009, rhaid cyflawni'r dadansoddi yn y modd y cyfeirir ato yn Erthygl 11(1)(a) neu, fel y bo'n briodol, (b), o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir er mwyn sicrhau y gwirir cydymffurfiaeth â'r gyfraith ar fwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid(**10**), fel y'u darllenir ar y cyd â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 669/2009 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y cynnydd yn lefel rheolaethau swyddogol ar fewnforion o fwyd anifeiliaid penodol a bwydydd nad ydynt yn dod o anifeiliaid penodol ac sy'n diwygio Penderfyniad 2006/504/EC(**11**).

**Ffurf tystysgrif dadansoddi**

**7.** Rhaid i dystysgrif dadansoddi unrhyw fwyd anifeiliaid, a anfonir yn unol ag—

(a) adran 77(4);

(b) rheoliad 30(4) neu 31(3) o'r Rheoliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid; neu

(c) rheoliad 6(2)(b) o'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid AE,

fod yn y ffurf a bennir yn Atodlen 1 a rhaid ei llenwi yn unol â'r nodiadau i'r Atodlen honno.

(**10**) OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1. Nodir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 yn awr mewn Corigendwm (OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1) y gellid ei ddarllen ar y cyd â Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.29).
(**11**) OJ Rhif L194, 25.7.2009. t.11.

# RHAN 3

Diwygio ac addasu deddfwriaeth arall mewn cysylltiad â samplu a dadansoddi

**Diwygio neu addasu'r Ddeddf**

**8.** Diwygir neu, yn ôl fel y digwydd, addesir y Ddeddf yn unol â rheoliadau 9 i 20.

**9.** Yn adran 66(1) (dehongli Rhan IV) mewnosoder yn y lle priodol y diffiniadau canlynol

""final sample" has the meaning that it bears in Annex I to Regulation 152/2009;";

""Regulation 152/2009" means Commission Regulation (EC) No. 152/2009 laying down the methods of sampling and analysis for the official control of feed;".

**10.** Bydd adran 68 (dyletswydd gwerthwr i roi datganiad statudol), i'r graddau y mae'n gymwys o ran bwydydd anifeiliaid, yn gymwys fel pe rhoddid—

(a) yn is-adran (4)(b), y geiriau "final sample" yn lle "sampled portion"; a

(b) yn is-adran (5)—

(i) y geiriau "final sample" yn lle "sample taken from the portion in question", a

(ii) y geiriau "in accordance with Regulation 152/2009" yn lle "in the prescribed manner".

**11.** Bydd adran 69 (marcio deunydd a baratoir ar gyfer ei werthu) i'r graddau y mae'n gymwys o ran bwydydd anifeiliaid, yn gymwys fel pe rhoddid—

(a) yn is-adran (4)(c), y geiriau "final sample" yn lle "sampled portion"; a

(b) yn is-adran (5), y geiriau "final sample in question" yn lle "sample taken from the portion in question".

**12.** Bydd adran 70 (defnyddio enwau neu ymadroddion ag ystyron rhagnodedig) i'r graddau y mae'n gymwys o ran bwydydd anifeiliaid, yn gymwys fel pe rhoddid—

(a) yn is-adran (2), y geiriau "final sample" yn lle "sampled portion"; a

(b) yn is-adran (4)—

(i) y geiriau "final sample" yn lle "sampled portion", a

(ii) y geiriau "that sample" yn lle "the sample taken from that portion".

**13.** Bydd adran 71 (manylion sydd i'w rhoi am rai nodweddion os hawlir eu bod yn bresennol) i'r graddau y mae'n gymwys o ran bwydydd anifeiliaid, yn gymwys fel pe rhoddid—

(a) yn is-adran (2)(b), y geiriau "final sample" yn lle "sampled portion"; a

(b) yn is-adran (3)—

(i) y geiriau "final sample" yn lle "sampled portion", a

(ii) y geiriau "that sample" yn lle "the sample taken from that portion".

**14.** Yn adran 73 (cynhwysion niweidiol mewn bwydydd anifeiliaid)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) yn lle'r geiriau "sampled portion" rhodder "final sample", a

(ii) hepgorer y geiriau "the sample taken from"; a

(b) yn is-adrannau (2)(a) a (b), (2A) a (3)(b) ym mhob achos, yn lle "sampled portion" rhodder "final sample".

**15.** Yn adran 73A—

(a) yn is-adran (1)—

(i) yn lle'r geiriau "sampled portion" rhodder "final sample", a

(ii) hepgorer y geiriau "the sample taken from"; a

(b) yn is-adrannau (2)(a) a (b) a (3) ym mhob achos, yn lle "sampled portion" rhodder "final sample".

**16.** Bydd adran 75 (hawl prynwr i gael cymryd a dadansoddi sampl) i'r graddau y mae'n gymwys o ran bwydydd anifeiliaid, yn gymwys fel pe rhoddid, yn is-adran (1), y geiriau "in accordance with Regulation 152/2009" yn lle "in the prescribed manner".

**17.** Bydd adran 76 (p?er arolygydd i fynd i mewn i fangre a chymryd samplau) i'r graddau y mae'n gymwys o ran bwydydd anifeiliaid, yn gymwys—

(a) fel pe rhoddid, yn is-adran (1), y geiriau "in accordance with Regulation 152/2009" yn lle "in the prescribed manner"; a

(b) fel pe rhoddid y canlynol yn lle is-adran (4)–

"(4) Without prejudice to any other power or duty as to the taking of samples, an inspector may for the purposes of this Part of this Act take a sample of any material which has been sold for use as a feeding stuff or which he has reasonable cause to believe to be intended for sale as such.".

**18.** Bydd adran 77 (rhannu samplau a dadansoddi gan ddadansoddwr amaethyddol) i'r graddau y mae'n gymwys o ran bwydydd anifeiliaid, yn gymwys—

(a) fel pe rhoddid y canlynol yn lle is-adran (1)–

"(1) Where an inspector has taken a sample and prepared and packaged final samples in accordance with Regulation 152/2009 the inspector, in addition to sending a final sample to the agricultural analyst for the inspector's area in accordance with the requirements of paragraph 8 of Annex I to that Regulation—

(a) shall send one final sample—

(i) where the sample was taken pursuant to the request of a purchaser under section 75 of this Act, to the seller or his agent;

(ii) in any other case, to the person on whose premises the sample was taken, or, if the person on whose premises the sample was taken purchased the material in question for use and not for resale, to the seller or his agent; and

(b) subject to section 78 of this Act, shall retain at least one final sample for nine months.";

(b) fel pe rhoddid y canlynol yn lle is-adran (2)—

"(2) If the person who manufactured any material of which an inspector has taken a sample as mentioned in subsection (1) is not a person to whom a final sample is required to be sent under that subsection, the inspector shall send a final sample to the manufacturer unless he does not know and is unable after making reasonable inquiries to ascertain before the expiration of fourteen days from the date when the sample was taken—

(a) the manufacturer's name; or

(b) any address of the manufacturer in the United Kingdom.";

(c) yn is-adran (3), fel pe rhoddid—

(i) y geiriau "final sample" yn lle "part of a sample", a